Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 25.04.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn.

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow.

# CYLLID: Llywodraeth Cymru'n lansio dwy gronfa newydd ar gyfer digwyddiadau a'u cadwyni cyflenwi

Mae Llywodraeth Cymru'n gwahodd trefnwyr digwyddiadau, busnesau o fewn cadwyni cyflenwi ac eraill sydd â rôl yn y diwydiant digwyddiadau i wneud cais i ddwy gronfa ddewisol beilot newydd gan Digwyddiadau Cymru:

- Bwriad Cronfa Datblygu'r Sector yw cefnogi prosiectau sy'n gallu dangos y byddan nhw'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru, yn enwedig mewn meysydd fel datblygu sgiliau. Mae'r

canllawiau ar gael ar: [https://www.llyw.cymru/digwyddiadau-cymru-gronfa-datblygur-sector-canllawiau-ar-gyfer-gwneud-cais](https://www.llyw.cymru/digwyddiadau-cymru-gronfa-datblygur-sector-canllawiau-ar-gyfer-gwneud-cais)

- Mae'r Gronfa Arloesi Cynaliadwyedd yn agored i brosiectau i ddatblygu dulliau newydd ac arloesol o gynaliadwyedd amgylcheddol mewn digwyddiadau. Mae'r canllawiau ar gael ar: [https://www.llyw.cymru/digwyddiadau-cymru-gronfa-arloesi-cynaliadwyedd-canllawiau-ar-gyfer-gwneud-cais](https://www.llyw.cymru/digwyddiadau-cymru-gronfa-arloesi-cynaliadwyedd-canllawiau-ar-gyfer-gwneud-cais)

## TRETH: CThEF Bwletin y Cyflogwr – Ebrill 2023

Mae rhifyn Ebrill yn cynnwys erthyglau ar roi gwybod am dreuliau a buddiannau ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2023, paratoi ar gyfer yr Ardoll Troseddau Economaidd, y gyfradd llog swyddogol o 6 Ebrill 2023 ymlaen a mwy. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

[https://bit.ly/3oG1QLx](https://bit.ly/3oG1QLx)

## YMGYRCH: Diwrnod Atal Gwastraff Bwyd 26 Ebrill 2023

Diwrnod Atal Gwastraff Bwyd, sy'n digwydd ar 26 Ebrill 2023, yw'r diwrnod gweithredu mwyaf yn y frwydr yn erbyn gwastraff bwyd. Mae gwastraffu bwyd yn wastraff o'r ynni i dyfu, cynaeafu, prosesu a choginio, a gall gwastraff bwyd mewn safleoedd tirlenwi achosi allyriadau methan, sy'n nwy tŷ gwydr cryf. Mae mwy o wybodaeth am sut i gymryd rhan ar gael ar:

[https://www.stopfoodwasteday.com/en/about.html](https://www.stopfoodwasteday.com/en/about.html)

Mae adnodd syml gan Bwyd a Diod Cymru, sy'n ceisio cynnig cyngor ar sut i leihau gwastraff bwyd, deunydd pecynnu, a'r defnydd o ynni yn y gegin, ar gael ar:

https://food-drink.wales/cy/home/

## ADNODDAU: Cylchlythyr Busnes Llwybr Arfordir Cymru

Mae rhifyn cyntaf cylchlythyr busnes Llwybr Arfordir Cymru a Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru bellach ar gael, gydag adnoddau hyrwyddo am ddim i fusnesau – delweddau proffesiynol ar gyfer deunyddiau marchnata, y newyddion diweddaraf am ymgyrchoedd a dolenni i deithiau cerdded i'w rhannu gyda chwsmeriaid. I ddarllen y newyddlen, ewch i:

https://bit.ly/3oyio8c

## YMGYRCH: Diwrnod Eiddo Deallusol y Byd 2023

Caiff Diwrnod Eiddo Deallusol y Byd ei ddathlu bob blwyddyn ar 26 Ebrill. Y thema ar gyfer 2023 yw "Merched ac Eiddo Deallusol: Cyflymu arloesedd a chreadigrwydd" ac mae'n dathlu gwaith arloesol dyfeiswyr, creawdwyr ac entrepreneuriaid benywaidd ledled y byd. Mae mwy o wybodaeth ac adnoddau ar gael ar:

https://www.wipo.int/ip-outreach/en/ipday/

Mae Busnes Cymru wedi ei ymrwymo i gefnogi ac annog mwy o ferched i lwyddo i ddechrau, cynnal ac ehangu'u busnesau yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/cefnogi-merched-yng-nghymru

## CYMORTH: Mae modd cysylltu â Busnes@gwynedd.llyw.cymru bellach mewn mwy fyth o ffyrdd!

Mae bellach yn haws nag erioed chysylltu â Busnes@gwynedd.llyw.cymru – mae ein porth ymholiadau newydd yn caniatáu ichi anfon a chadw golwg ar eich ymholiadau

i gyd. Neu os oes gennych gwestiwn cyflym – anfonwch neges atom ar WhatsApp! Mae dolenni at ein holl ddulliau cysylltu ar gael ar:

https://linktr.ee/BusnesGwynedd

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/cy
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru